OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2016 No. 386

# Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Cyfansoddiad, Marchnata a Defnydd) (Cymru) 2016

PROSPECTIVE

## RHAN 4

### Gorfodi Rheoliad 1831/2003

**Dehongli'r Rhan hon**

**9.** Yn y Rhan hon mae unrhyw gyfeiriad at Erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr Erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn Rheoliad 1831/2003.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Rhl. 9 mewn grym ar 12.5.2016, gweler **rhl. 1(2)**

**Y drosedd o fethu â chydymffurfio â darpariaeth benodedig yn Rheoliad 1831/2003**

**10.**—(1) Mae person yn cyflawni trosedd os yw'n mynd yn groes i ddarpariaeth, neu'n methu cydymffurfio â darpariaeth, a bennir ym mharagraff (2) fel y'i darllenir, yn achos is-baragraff (a) neu (e), gydag Erthygl 2 (darpariaeth drosiannol) o Reoliad y Comisiwn (EU) Rhif 2015/327 sy'n diwygio Rheoliad (EC) Rhif 1831/2003 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran gofynion ynghylch rhoi ar y farchnad ac amodau defnyddio ychwanegion sy'n cynnwys paratoadau(**1**).

(2) Y darpariaethau penodedig yw—

(a) Erthygl 3(1) (gwaharddiad ar roi ar y farchnad, prosesu neu ddefnyddio ychwanegyn bwyd oni bai ei fod wedi ei gwmpasu gan awdurdodiad a'i fod yn bodloni amodau perthnasol), fel y'i darllenir gyda pharagraff (2) (awdurdodiad cenedlaethol at ddibenion arbrofol gwyddonol), paragraff (4) (amodau ar gymysgu ychwanegion) ac Erthygl 10 (statws cynhyrchion presennol);

(b) Erthygl 3(3) (cyfyngiad ar y personau a gaiff roi ar y farchnad am y tro cyntaf ychwanegion penodol);

(c) Erthygl 12(1) (gofyniad bod rhaid i unrhyw berson sy'n defnyddio neu'n rhoi ar y farchnad ychwanegyn, neu fwyd anifeiliaid y mae'r ychwanegyn wedi ei gynnwys ynddo, neu unrhyw barti arall a chanddo fuddiant, sicrhau bod unrhyw amodau sydd wedi eu gosod yn cael eu parchu);

(d) Erthygl 12(2) (gofyniad bod deiliad awdurdodiad yn cadw at rwymedigaethau monitro pan fyddant wedi eu gosod, yn hysbysu'r Comisiwn am unrhyw wybodaeth newydd am

(**1**) OJ Rhif L 58, 3.3.2015, t 46.

gynnyrch a allai effeithio ar y gwerthusiad o ddiogelwch ei ddefnyddio mewn bwyd anifeiliaid, neu am unrhyw waharddiad neu gyfyngiad ar y bwyd anifeiliaid sydd wedi ei osod gan yr awdurdod cymwys mewn trydedd wlad);

(e) Erthygl 16(1), (3) a (4) (gwaharddiad ar roi ar y farchnad ychwanegion bwyd anifeiliaid neu rag-gymysgeddau oni bai eu bod wedi eu labelu yn y modd penodedig ac â'r wybodaeth ragnodedig), fel y'i darllenir gyda pharagraff (2) (rhanddirymiad ar gyfer cyfansoddion blasu penodol); ac

(f) Erthygl 16(5) (gofyniad bod rhaid i ychwanegion a rhag-gymysgeddau gael eu marchnata mewn pecynnau neu gynwysyddion caeedig y mae rhaid eu bod wedi eu cau yn y fath ffordd fel bod y sêl yn cael ei difrodi wrth agor y pecynnau neu'r cynwysyddion ac na ellir eu hailddefnyddio).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I2** Rhl. 10 mewn grym ar 12.5.2016, gweler **rhl. 1(2)**

**Statws**
Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) part yn cynnwys darpariaethau sy'n rhagolygol.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Cyfansoddiad, Marchnata a Defnydd) (Cymru) 2016, RHAN 4.